

Cymro i Gymru,

Hil Gomer



306
Dros Fyth!

AB

SEF,

CAN NEWYDD,

O Glod a Pharch i

Squire Edwards,

O Rheola,

Gynt Marchog Sir Forganwg.

Wedi ei 'chwanegu a'i diwygio.

Yr EDWARDS mae'n wr odiaeth,—mwyn eiriau,
Mae'n wr o'n cym'dogaeth;
Gwr uniawn a firwythlawn fraeth,
Dwys gadarn mewn dysgeidiaeth.

MERTHYR TYDFIL:

ARGRAFFWYD GAN J. JENKINS.

1820.

X205227626

Can Newydd, &c.

1.

UCHELWYR sir Forganwg, heb gelu dewch i'r golwg,
I roddi eich Vote i Gymro Iael, heb fod yn gul, fe haedda'i
gael,

I wr benheddig, gweddaiidd gwiw,
Sy'n fawr ei rodd i ddynol-ryw,
Ac yma erioed yn bod a byw,---
Sef, Edwards for ever!

2.

Considrweh, wyr bon'ddigion, sy a'ch meddiant mawr, a'ch
moddion,
Pwy use yw gwaeddi gyda'r gwaed, er mwyn ryw glod, i 'nafu
ein gwlad;

Mae'n well cael Cymro llawn o'n lle,
Ag a wyr bob tro am wlad a thre';
Yn Llundain draw, fe gofia am dre',
Sef Edwards for ever!

3.

Ymdrechweh sir Forganwg, heb gelu i gadw eich golwg,
I gael gwr bonheddig gwych o'ch ran, fyn chwarae tég i gryf a
gwan,

Ac un, yn blain, a findia eich ple,
Heb son am Gole, beth wnair ag e'?'
Bydd hwnw yn llon yn llanw ein lle,
Sef, Edwards for ever!

4.

Mae Edwards o Rheola, yn wr o fythol bethau,
Ac a'n dod nhw' i maes fel gro, pan ddelo yn drue o ddanta ei
dro;

Ac os y scâl dro ucha' scil,
Beth brisia 'fe pe bae nhw' fil,
Bydd gwaeddi rhwydd gan bawb yn rhydd,
Sef, Edwards for ever!

5.

'Does un dyn byw a aned, fo'n ffel, a fydd cyn ffloed,
A rhoddi ei Vote i ddierth rai, on'd te pawb fo fydd ar ei fai,
Waith pwy naturiaethl ddiellon fod,
At ddyn fa yma fawr erio'd,
Y Cymro clau, sy'n cario'r clod,
Sef, Edwards for ever!

6.

Edwards sydd ben am bunnan, mewn bryn a bro a blaenau,
Heb achos son am Gole a Grey, nes del pob fo i wel'd ei fai;
Ond fe geir gwel'd pan ddelo'r dydd,
Bydd gwaeddi rhwydd, gan bawb yn rhydd,
Mai Squire Vaughan yw ei fflo, er ffydd,
Sef, Edwards for ever!

7.

Mawr fath ddiolch tirion gan bawb o'r holl wyr rhyddion,
Ac oni buasai'r Squire ddechreu'r gwaith, ni buasai ein llwyth
ond oer a llaiith;

A mawr mor drue bu gwlad a thre',
Fel un i gyd, fod gydag e',
Fe gostia 'i waed cyn colli'r ple,
Squire Edwards for ever!

8.

A mawr fath ddiolch tirion, gan ddegau o'r cym'dogion,
I Mr. Howells fawr ei glod, 'does yn y byd ei well e'n bod,
Mae'r gwragedd rhyddion draw trwy'r dre',
Bron taro tân gwaith cael y tē,
I gyd yn gwaeddi gydag e',
Squire Edwards for ever!

9.

Yn awr mae'r Saeson sawsi, mor dawel yrr rhwym i dewi,
A'r rhai fu'n gwaeddi gyda Cole, oedd gynt yn ffler i gyd yn ffol,
O eisiau deall ffordd mae hi'n bod,
Trech gwlad nag arglwydd yw hi erio'd,
Y Cymro clau sy'n cario'r clod,
Sef, Edwards for ever!

10.

Mr. Vaughan ei hunan, sy'n fawr ei barch y'n rhob man,
Crawshay a Howells gydag e', tri Chymro llawn oddifewn ein lle,
Savous ac Woods, o dre' Caerdydd,
A Mr. Bassett mawr bob dydd,
Chwech true trwy gâr mor daer a dŵr,
Squire Edwards for ever!

11.

Pwy rhyfedd bod hi yn gyfyn', dros ugain mil o werin,
Pob un yn llawn ac yn ei le, fe a goll'sai ei fywyd gydag e',
Fe gas ei gario gyda chlod,
Fu dyn fwy'i barch mewn byd erio'd,
Efe yw'r dyn sy'n ffit i fod,
Sef, Edwards for ever!

12.

'Roedd Squire Vaughan mor foddlon, wrth wel'd ei holl gyn-
dogion,
Yn d'od mor drue i mewn i'r dre', pob un yn llon ac yn ei le;
Dros dri chant dan golors llawn,
Gwedi ranco yn drefnus iawn,
Gan wyr bon'ddigion gwych eu dawn,
At Edwards for ever!

13.

Yn Mhenybont ar Ogwr bu llawer iawn o gynnw'r,
Rhai ar eu torr, rhai ar eu traed, a rhai rhy glud, bron'mado a'u
gwlad;
Rhai, heb un pwer, ar un glin,
A rhai rhy wan, with yfed gwin,
Fe gofia dro fel ca's ei drin,
Gan Edwards for ever!

14.

Mae'r Squire Edwards etto, ar sail i ail ddeclaro, [y gwir,
Nag un fwy siwr oddifewn ein sir, pe bae nhw' yn addo i ddwend

Gwaith, mae e'n dad, a gwell na brawd,
 Pump cant o bunnan ganddo ga'w'd,
 I gyd yn ddillad i'r tylawd,
 Gan Edwards for ever!

15.

Pwy achos cael gwell Member i eistedd ar yr orsedd,
 Nag un fwy siwr o fewn ein sir, mi fentra' mywyd fod e'n wir;
 Fe fu mor drue mewn llawer tro,
 Fe stoppws duty ar y glo,
 'Doedd lle fod gwell mewn bryn na bro,
 Squire Edwards for ever!

16.

Squire Sewins, Abertawe, Lady Baram 'honi hithe',
 Squire Crawshay 'n anad un, Mr. Meyrick yn gyttun,
 A Syr Charles Morgan gyda nhwy,
 A Mr. Hill, a llawer mwy,
 Mr. Knighton, glan di glwy',
 Edwards for ever!

17.

Arglwydd Jersey o Lansawel, a Llywelyn Gymro tawel
 Gyda Edwards haelaf ddyn, rows yn hael i lawer un,
 At Dai cyrddau 'n llawer man,
 Arian rodd yn rhwydd i'w rhan,
 Mae'n Gymro gwych o blaid y gwan,
 Edwards for ever!

18.

Er i Cole trwy ddirfawr gamwedd, gael ei godi 'nawr i'r senedd,
 Gobeithio 'ry'm fod amser 'nol, y daw Edwards mwyn i'r 'stol,
 Yn lle yr haerllŷg sarrug Sais,
 Mab i Hengist trwm ei drais,
 Ail i Iarlll Caerloyw a'i lais,
 Edwards for ever!

19.

Os gofyn neb yn gyfan pwy sydd a'r union anian,
 Un Cymro llon sy'n byw'n y llan, ac 'wyllys rhwydd i waeddi o'i
 rhan,
 Esguswch fi, Fon'ddigion glân,
 Nid yw ond blin i dd'od o'ch bla'n,
 Ond 'mod i yn un ag sydd yn ddiwahan,
 Edwards for ever!

DIWEDD.

Thos. Llewelyn, Llantrissant, a'i cant.

D. S. Na fydded i neb gyhoeddi'r Gân hon heb
 gennad y Cyhoeddwr, D. AMOS.

PRIS CEINIOE.